

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 24
MEHEFIN 2009

Un o felltithion mwyaf yr oes bresennol yw'r tyndra di-ddiwedd a ddaw ar ein gwarthaf mewn bywyd. Mae'n cymdeithas gyfoes yn llawn pobl sy'n gorfod plygu dan y straen. Beth bynnag yw'n gwaith a'n gorchwyl bob dydd, y mae pwysau'r bywyd modern yn mynnu gadael ei ôl arnom. Nid oes rhaid inni ond darllen y papurau dyddiol a gwrando ar y rhaglenni newyddion i synhwyro fod pwysau gwaith a chyfrifoldeb byw bob dydd yn un o symptomau penna'r oes ac yn effeithio ar bawb yn ddiwahân.

Un o fendithion mwyaf y ffydd Gristnogol yw gwybod ein bod yn medru troi at Dduw pa bryd bynnag ac ym mha le bynnag y dymunwn, a rhannu gydag Ef ein holl ofidiau a'n blinderau mewn bywyd. Does yna ddim byd sy'n rhy fawr neu'n rhy anodd i'r Arglwydd Iesu a gwyddom ei fod Ef yn medru cynnal y cyfan. Yn wir cawn ein hannog ganddo i droi ato, i ddadlwytho'r cyfan sydd yn ein poeni a gorffwyso yn ei gwmni.

Ond sut y mae'r Arglwydd yn ein cynorthwyo i orffwys?

Os ydym wedi chwerwi o ganlyniad i gasineb ac eiddigedd, cawn orffwys yn ei gariad grasol.
Os ydym yn teimlo'n annigonol cawn orffwys yn yr Hwn sydd yn fwy na digonol.
Os ydym wedi ein llwytho gan feichiau ein drwgweithredoedd, cawn orffwys yn ei faddeuant.
Os ydym wedi ein dadrithio gan y byd hwn, cawn orffwys yn ei obaith dwyfol.

Ydy, y mae'r Arglwydd Iesu yn feistr ar y cyfan sy'n ein llethu yn y byd hwn. Awn ato yn gwbl hyderus gan daflu ein beichiau a derbyn o'i fendith a'i drugaredd.

Gweddi *Diolch i Ti Arglwydd am dy fod yn Dduw sydd nid yn unig yn barod i'n derbyn ni ynghyd â'r holl bethau sydd yn ein llethu, ond diolch am dy fod hefyd yn Dduw sydd yn ein croesawu ni atat ac yn barod i rannu holl bwysau ein bywydau. Diolch i Ti am y fendith amhrisiadwy hon. Cynorthwya ni i droi atat,i bwyso arnat ac i ymddiried ynot bob amser.*

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR MIS MEHEFIN 2009**

| **Cyhoeddwr y mis: Sandra Beechey** | **Organydd y mis: Ceris Gruffudd** | |
|---|---|---|
| 7 Mehefin<br>12.00<br><br><br><br><br>2.30 | <br>Cynhelir Cinio Canol Dydd Tri Chwrs **ym Methel** i godi arian at yr eglwys yn Lesotho. Rhodri Edwards fydd yn paratoi'r pryd. Pris Tocyn : £10. Plant : £5<br>Croeso cynnes i bawb.<br><br>Oedfa Gymun: Gweinidog | <br><br><br><br><br>Bwrdd y Cymun<br>Mona<br>a Glenys<br>(Thomas) |
| 14 Mehefin<br>10.30 | <br>Oedfa Deuluol : Gweinidog | |
| 21 Mehefin<br>2.30yp | Oedfa ar y Cyd: Bethel a Horeb yn Horeb.<br>Edrychwn ymlaen at groesawu Delyth Davies, Cyd-lynydd y BMS yng Nghymru a chlywed am y datblygiadau diweddaraf yn y genhedaeth Gristnogol dramor. | <br>Gofal y Te<br>Angen Trefnu |
| 28 Mehefin<br>10.30yb<br>10.45yb | <br>Clwb Sul<br>Oedfa ar y Cyd â'r Eglwys yn Eglwys Sant Ioan.<br>Edrychwn ymlaen at groesawu y Bon. Wynford Ellis Owen a fydd yn sôn am ei waith gyda'r Cyngor Alcohol a Chyffuriau yng Nghymru. Dewch i gefnogi! | |
| 5 Gorffennaf | Ymweliad â Salem, Llanbedr. Rhowch eich enwau i Ceris cyn gynted ag y bo modd. Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn gadael Penrhyn-coch tua 12.30yp. Croeso cynnes. | |

**I'CH DYDDIADUR**

10 Mehefin : Cinio Cymunedol : Horeb yn gyfrifol am weini.
13 Mehefin : Taith Cymdeithas y Penrhyn i Sir Fôn. Byddwn yn cychwyn am 8.30yb. Enwau i Ceris.
17 Mehefin : Cymdeithas Bethel am 2yp.
17 Mehefin : Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn.
22-24 Mehefin : Undeb y Bedyddwyr, Bangor.
24 Mehefin : Cinio Cymunedol
30 Mehefin : Cwrdd Gweddi am 7.30yh
6 Gorffennaf : Cinio Bara Caws : Morfa : 12.00-1.30yp

**LLOFFION**

- Diolch i bawb a ddaeth i Fethel i gefnogi'r Gymanfa. Diolch yn arbennig i'r Clwb Sul am eu cyfraniad yn Oedfa'r Bore a diolch i Ceris am gyfeilio yn yr hwyr.
- Dymuniadau gorau i Mr Ronnie Evans sydd wedi bod yn yr ysbyty.
- Dymuniadau gorau I Mrs Mair Evas sydd wedi derbyn triniaeth ar ei throed.
- Croeso i Charlie Daniel, mab bach cyntaf anedig Melanie a Daniel Hughes, Capel Bangor a anwyd ym mis Ebrill.
- Cydymdeimlwn â Jeremy, Bethan, Cemlyn a Trystan ar golli mam a mam-gu, Mrs Irene Davies. Rydym hefyd am longyfach Jeremy ar gael ei wneud yn Athro Anrhydeddus yn Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth.
- Cydymdeimlwn â Christine Lloyd, y Borth ar golli ei mam yn ddiweddar.
- Cydymdeimlwn â theulu y diweddar William Morgan Thomas, Tonypandy a oedd â chysylltiadau teuluol â Phenrhyn-coch. Claddwyd ei lwch yn y fynwent ym mis Mai.
- Dymuniadau gorau i bawb sydd wrthi ar hyn o bryd yn sefyll arholiadau.

**Swper y Pasg** : Derbyniwyd llythyr gan y chwaer Rosemary Morgan, Llywydd Mudiad y Chwiorydd yn diolch inni am y rhodd ariannol tuag at Gartrefi Glyn Nest a Bryn Llifon, a gasglwyd gennym yn Swper y Pasg.